# Tasg 2

**(Heriol, sbardun 3)**

**TASGAU SIARAD AC YSGRIFENNU**

**Tasgau siarad**

1. Beth mae'r pwyslais ar y wisg yn y darn cyntaf yn dweud wrthon ni am y cymeriad sy'n cael ei disgrifio?

2. Ydy disgrifiadau manwl fel hyn yn ddiddorol i'w darllen? Pam? /Pam lai?

3. Mae'r ail ddarn yn dechrau fel hyn: 'Yn bedair blwydd oed mae traed yn rhan fawr o fywyd'. Ydy'r frawddeg hon yn ffordd dda o ddechrau'r darn? Pam?/Pam lai?

4. Edrychwch ar baragraff cyntaf yr ail ddarn. Beth yw'r gair amlycaf ynddo? Beth yw'r enw ar y dechneg hon?

5. Ydy'r geiriau 'clipian clopian' yn effeithiol? Pam?/Pam lai?

6. Beth yw eich barn am dair brawddeg olaf yr ail ddarn?

**Tasgau ysgrifennu**

1. Chwiliwch am lun o wisg ffasiynol (ddyn neu ddynes) ac ysgrifennwch baragraff disgrifiadol sy'n debyg i'r darn darllen cyntaf.

2. Dewiswch:

   **Naill ai**: Meddyliwch yn ôl am eich plentyndod ac ysgrifennwch ddarn creadigol am yr esgidiau rydych chi'n eu cofio.
   **Neu:** Ysgrifennwch ddarn creadigol am yr esgidiau rydych chi'n eu gweld bob dydd nawr.